


# Ymgolli dy hun...



**Yng Nghnowy**  
Lle Mae Eryri'n  
Cwrdd â'r Môr



**CANLLAW Y GAELF 2019/2020**



**#YmgolliDyHun #DarganfodyGogledd**

# Ymgolli dy hun... mewn seibiant dros y gaeaf



## DARGANFYDDWCH ANTUR NA ELLIR EI FETHU, GOLYGFYDD HUDOLUS A PHROFIADAU UNIGRYW.

Y peth anoddaf i'w wneud yn Llandudno a Sir Conwy ydi gwneud amser i bopeth ar wyliau cartref dros y gaeaf! Mae cymaint i'w gynnis - boed yn wyliau i'r teulu, gwyliau antur neu'n seibiant er mwyn ymlacio, mae'r cyfan ar gael yn y rhan hon oogledd Cymru.

Ymgollwch mewn antur, bwyd a diod, hanes a chysurusrwydd cartrefol mewn un daith. Ewch ati i grwydro Parc Gwledig y Gogarth, mynyddoedd Eryri neu ewch am dro iachusol ar hyd pier hiraf Cymru. O ddyffryn Conwy i Hiraethog, tydi darganfod pentrefi hudolus a phrofiadau na ellir eu methu erioed wedi bod mor gyffrous.

Mae'r hydref a'r gaeaf yng Nghonwy yn gweld y sir yn cael ei thrawsnewid. Mae ein coetiroedd yn ffrwydrad o llwytygoch, melyn ac aur ac yn cynnwys golygfeydd anhygoel. Mwynhewch wyliau hudol y gaeaf mewn bwthyn clud, gwesty braf ger y môr neu dafarn yn y wlad gyda than clud a siocled poeth wrth i chi fwynhau'r golygfeydd o'ch amgylch.

Ym mis Ionawr, gwisgwch yn gynnes a gweld y tonnau wrth fynd am dro ar y traeth ar hyd Llwybr Arfordir Cymru. Ewch allan ac archwilio golygfeydd y gaeaf neu hyd yn oed rhoi cynnis ar weithgaredd newydd.

Mae diwedd Ionawr neu Chwefror yn berffaith ar gyfer gwyliau rhamantaidd. Trefnwch wyliau bach Santes Dwynwen (santes cariadon Cymru) neu San Ffolant gyda rhywun arbennig. Mwynhewch deithiau cerdded hamddenol, anturiaethau a golygfeydd epig fydd yn darparu atgofion hudol fydd yn para am byth.

## BETH SYDD Y TU MEWN

- 3-5** Antur Dan Do ac yn yr Awyr Agored
- 6-8** Treftadaeth, Diwylliant, Gerddi
- 9** Ffefrynnau i'r Teulu
- 10** Aros, Bwyta, Yfed, Siopa
- 11** Ar Lwyfan a Sgrin
- 12-13** Gwyliau, Digwyddiadau a Seibiant Dros y Gaeaf
- 14** Map o Sir Conwy

## ANTUR DAN DO AC YN YR AWYR AGORED

Wedi ei enwi gan Lonely Planet fel un o'r llefydd gorau yn y byd i ymweld ag o, mae Gogledd Cymru bellach yn cael ei ystyried fel prif ganolfan antur y DU. O wefr yr adrenalín i deithiau cerdded ar hyd llwybr yr arfordir, dewch i brofi'r gorau sydd gan yr awyr agored i'w gynnis, gyda naws arbennig gogledd Cymru.



### PARC ANTUR ERYRI, DOLGARROG 01492 353123

**Cyf Map: D3**

Eisoes yn gartref i lagŵn syrffio mewndirol cyntaf y byd, bellach mae gan Parc Antur Eryri gyfleuster antur newydd dan do. Mae Adrenalin Dan Do yn cynnwys un o systemau ogofa artiffisial hiraf y DU, waliau dringo a rasio dan do ac yn yr awyr agored, neidiadau, ac o bosib y llithrennau mwyaf eithafol y dewch chi ar eu traws, ac unig lithren 'kicker flight' yn y DU. Gall yr anturwyr deithio ar hyd llinell zip tandem o'r to gan hedfan dros y lagŵn syrffio. Mae yna ardal chwarae meddal i blant bach hefyd.



### CANOLFAN CHWARAEON EIRA LLANDUDNO

**01492 874707**

**Cyf Map: A3**

Beth am fentro i Ganolfan Chwaraeon Eira Llandudno. Does dim amser gwll i weithio ar eich sgiliau chwaraeon gaeaf nag yn ystod y misoedd oeraf. Os yw'n well gennych fod ar eich eistedd, beth am fynd ar y Cresta Run 2,500 troedfedd/750 metr, llwybr toboganau hiraf Cymru.

**DYMA  
DDECHRAU'R  
ANTUR**

## **ANTUR DANDDAEAROL GO BELOW, GER BETWS-Y-COED**

**01690 710108**

**Cyf Map: G4**

Antur Danddaearol Go Below ger Betws-y-Coed yw'r profiad tanddaearol dramatig eithaf. Ymysg cyn fwyngloddiau yng nghrombil mynyddoedd Eryri, mae yna fyd o lynnoedd glas dwfn, gwifrau gwib, pontydd, ysgolion ac abseiliau. Mae'n gwrs rhwystrau heb ei ail.

## **GYG KARTING, CERRIGYDRUDION**

**01490 420770**

**Cyf Map: I7**

Bodlonwch eich angen am gyflymder yn GYG Karting yng Ngherrigydrudion. Dyma gylchffordd rasio ceir gwyllt fwyaf y DU, sy'n cynnig gwefr uchel-octan i yrwyr o bob oed.

## **ZIP WORLD FFOREST, BETWS-Y-COED**

**01248 601444**

**Cyf Map: G4**

Ewch am y coed gyda'ch ffrindiau a'ch teulu yn Zip World Fforest i fynd i'r afael â rhaffau, rhwydi a siglenni sy'n hongian o'r nenfwd o goed. Mae yno hefyd reid tobogan y Fforest Coaster a'r Plummet 2 newydd sy'n gwmp 100 troedfedd/30 metr drwy drapddor, sef y profiad agosaf at neidio rhydd a gewch chi heb fynd mewn awyren.

## **CANOLFAN DDRINGO'R BOATHOUSE, LLANDUDNO**

**01492 353535**

**Cyf Map: A3**

Mae hen Orsaf Bad Achub Llandudno bellach yn gartref i Ganolfan Ddringo'r Boathouse. Bydd yn apelio at bawb, yn ddechreuwr ac yn arbenigwr fel ei gilydd. Mae'n cynnwys tua 200 metr sgwâr o arwynebau dringo gyda wal clogfeiniol sydd yn 4.5 metr o uchder. Mae'r tŵr dringo yn 8 metr o uchder gyda chyfres o ddringfeydd a rhaffau, ac mae llawer o lwybrau yn ddigon i herio'r dringwr myaf profiadol.

## **LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

Nid oes yna adeg wael i fynd ar ein rhan o Lwybr chwedlonol Arfordir Cymru. Mae'n ymestyn oddeutu 35 milltir rhwng Bae Cinmel a Llanfairfechan, felly bydd gennych ddigon o lwybrau glan y môr i ddewis ohonynt.

**Cofiwch!** Gall amseroedd agor a chyfleusterau newid heb rybudd felly cysylltwch â'r atyniadau unigol cyn cychwyn.



## **BEICIO MYNYDD**

Bydd beicwyr profiadol yn anelu'n syth am brofiadau bythgofiadwy fel y traciau coedwig gwyllt yn ardal Penmachno a Betws-y-Coed, gan gynnwys llwybr mawreddog Gwydir Mawr, sy'n 16 milltir.

## **BEICIO**

Ymysg tirweddau agored a thywyll Mynydd Hiraethog, fe ddewch o hyd i lwybrau addas i'r teulu oll o amgylch cronfeydd dŵr Alwen a Llyn Brenig. I feicwyr ffordd, mae yna ellydd digon i hollti ysgyfaint yn ogystal â llwybrau teuluol hamddenol ar Lwybr Beicio Conwy, sy'n 30 milltir o daith arfordirol bron yn gwbl ddi-draffig.

## **PLAS Y BRENIN, CAPEL CURIG**

**01690 720214**

**Cyf Map: F2**

Nawr yw'r amser i weld pegynau Eryri dan fantell wen. Dysgwch sut i fynd i'r afael â'r mynyddoedd hyn dan hyfforddiant arbenigol ar gyrsiau awyr agored yng Nghanolfan Fynydda Genedlaethol Plas y Brenin yng Nghapel Curig. Maen nhw'n cynnwys popeth o ddringo i ganwio, beicio mynydd i heicio.




Cymru-Wales  
**ADVENTURE  
SMART.UK**



Os ydych chi'n bwriadu mynd ar eich antur awyr agored eich hun, ewch i [adventuresmart.uk](http://adventuresmart.uk) bydd y cyngor sydd yno am y tywydd, offer a sgiliau yn help mawr i chi gadw'n ddiogel.



# TREFTAETH DIWYLLIANT GERDDI



## PIER LLANDUDNO

01492 876258 Cyf Map: A3

Beth sydd ddim i'w hoffi am gerdded ar y pier? Yn Llandudno, mae gennym yr un hiraf yng Nghymru. Felly, lapiwch yn gynnes a mentro i'r gwynt gan gerdded ei hyd ac yn ôl. Ac os ydych dal ati ar droed, beth am barhau ar hyd ein promenâd prydferth (y credwn ni sy'n edrych yn hudolus gyda'r holl oleuadau ar ôl iddi dywyllu).

## CASTELL CONWY

01492 592358 Cyf Map: B3

Os rhywbeth, mae Castell Conwy'n edrych hyd yn oed yn fwy dramatig yn erbyn cefnlen o awyr tywyll, du. Cerddwch ar y rhagfuriau i gael naws ar ei bŵer, sy'n ddigyfnewid 800 mlynedd ar ôl iddo gael ei adeiladu fel rhan o ymgyrch Brenin Edward I yn erbyn Cymru. I gael y golygfeydd gorau o'r castell a'r foryd, gallwch gerdded ar hyd muriau canoloesol Conwy. Gan ymestyn yn ddi-dor bron o amgylch craidd y dref, dyma rai o'r waliau hiraf ac mewn cyflwr da gorau yn Ewrop. Does dim syndod fod y muriau a'r castell wedi'u dynodi'n Safle Treftadaeth y Byd UNESCO.



## CASTELL DOLWYDDELAN

01690 750366 Cyf Map: H2

Efallai ei fod yn llai na Chonwy, ond mae Castell Dolwyddelan yn dal yn seren. Wedi'i adeiladu gan Llywelyn Fawr (Tywysog Gwynedd o'r 13eg ganrif ac arweinydd gwirioneddol y mwyafrif o Gymru), mae ei leoliad ar grib greigiog ymhlith copaon Eryri yn ddramatig iawn.



## Tŷ ABERCONWY, CONWY

01492 592246 Cyf Map: B3

Saif y tŷ o'r 14eg ganrif hwn a oedd yn eiddo i farsiaidwr, ac yn roeswr prin canrifoedd o hanes cythryblus, fel capsïwl amser byw. Tu mewn, mae'r ystafelloedd â dodrefn sy'n dangos gwahanol gyfnodau yn oes hir Aberconwy, gan roi cipolwg ar ein hanes Jacobeaidd, Sioraidd a Fictoraidd. Mae'r tŷ ar agor yn ddyddiol rhwng mis Mawrth a 3 Tachwedd, o 10am tan 5pm. Ar agor ar benwythnosau'n unig rhwng 9 Tachwedd a 22 Rhagfyr o 11am tan 4pm.

## CANOLFAN DDIWYLLIANT CONWY

01492 576139 Cyf Map: B3

Mae Canolfan Ddiwylliant newydd Conwy i fod i agor yn nhyrnor y gaeaf 2019/20, gan ddod â threftadaeth Conwy i fywyd yr 21ain Ganrif. Wedi'i leoli mewn adeilad modern trawiadol gyda golygfeydd dros furiau a chastell y dref, bydd yn gartref i lyfrgell ac Archifdy Conwy, yn ogystal â bod yn ganolfan gelfyddydau a threftadaeth fydd yn cynnwys arddangosiadau ac arddangosfeydd o gasgliadau hanesyddol y sir.



## Golau Gaeaf

Ar 16 Tachwedd a 14 Rhagfyr bydd y castell yn cael ei oleuo'n wyn fel rhan o ddigwyddiad Golau Gaeaf newydd yn Llandudno. Gweler dudalen 14.



## **MOSTYN, LLANDUDNO** 01492 879201 Cyf Map: A3

Mae MOSTYN yn Llandudno yn fwy na dim ond un o orielau celf gyfoes gorau'r DU. Mae hefyd yn gyflawniad pensaernïol cyfareddol, gyda'i ffasôn Edwardaidd â'i feindwr aur yn cyflwyno cyfres o ardaloedd mewnol trawiadol o fodern. Y tu mewn, fe welwch chi raglen gyfnewidiol o arddangosfeydd sy'n dangos y goreuon ymhlith celf a chrefft gyfoes o Gymru a thu hwnt. Mae yno hefyd gaffi cŵl a siop chwaethus yn gwerthu gemwaith, gwaith cerameg, printiau a llyfrau. Ar agor dydd Mawrth i ddydd Sul.

## **YR ACADEMI FRENHINOL GYMREIG, CONWY**

**01492 593413 Cyf Map: B3**

Mae'r Academi Frenhinol Gymreig mawr ei bri yng Nghonwy yn canolbwyntio ar ragoriaeth gelfyddydol yng Nghymru, gyda chymysgedd o waith hanesyddol a chyfoes. Ar agor dydd Mawrth i ddydd Sadwrn.

## **GALERI FFIN Y PARC, LLANRWST**

**01492 642070 Cyf Map: F4**

Mae yna fwy o gelfyddyd anhygoel i'w gweld yn Ffin y Parc yn Llanrwst, sef plasty crand sy'n arddangos rhai o'r artistiaid gorau sy'n gweithio yng Nghymru ochr yn ochr â'r goreuon ymhlith celf gyfoes yr 21ain Ganrif. Peidiwch â phoeni os nad yw eich cyllideb yn gadael i chi fynd â darn o waith gartref gyda chi. Mae'r cacennau sydd ar werth yn y caffi yn gampweithiau ynddynt eu hunain Ar agor dydd Mercher i ddydd Sul.

## **GARDD BODNANT, EGLWYSBACH**

**01492 650460 Cyf Map: D4**

Pryd bynnag yr ymwelwch, mae Gardd Bodnant wâstad yn brydferth. Gardd Gaeaf Bodnant, a grëwyd yn y 10 mlynedd ddiwethaf, yw trysor y tymor. Mae'r gyn ardd gerig wedi datblygu'n arddangosfa liwgar gyfoethog o ddail a blodau sy'n gwneud y mwyaf o haul y gaeaf - ac yma yw man cychwyn taith trwy 80 erw o hud y gaeaf.



© Lluniau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol/ Christopher Gallagher



# FFEFRYNNAU I'R TEULU

## **SW MYNODD GYMREIG, BAE COLWYN**

**01492 532938 Cyf Map: B5**

Mae mwy na chynnwys Arch Noa o greaduriaid yn Sw Mynydd Gymreig Bae Colwyn - popeth o forloi i lewpardiaid eira. Mae hefyd yn gwneud ei rhan yn y frwydr i achub rhywogaethau sydd mewn perygl o bob cwr o'r byd.



## **GWARCHODFA NATUR RSPB CONWY, ABER AFON CONWY**

**01492 584091 Cyf Map: B4**

Mae Gwarchodfa RSPB Conwy, safle gwlypdir ar ymyl y foryd, yn werddon dawel o lonyddwch, dafliaid carreg oddi wrth yr A55. Yn y gaeaf cadwch lygad am haid o adar yn cynnwll i fwyta, neu'n clwydo gyda'i gilydd gyda'r cyfnos i gadw'n gynnes.

## **AMGUEDDFA REILFFORDD DYFFRYN CONWY, BETWS-Y-COED**

**01690 710568 Cyf Map: G4**

Mae pobl sy'n frwd am drenau wrth eu boddau ag Amgueddfa Reilffordd Dyffryn Conwy, sydd yn union wrth ymyl y brif orsaf. Ewch am daith wyth munud o hyd ar drên stêm bychan drwy erddi wedi'u tirlunio, ewch i amgueddfa llawn arteffactau hynod dddidorol a phorwch drwy'r casgliad enfawr o fodolau trên yn y siop.

## **PROFIAD SIOCLED LLANDUDNO**

**01492 339507 Cyf Map: A3**

Os oes gennych chi ddant melys, beth am ymweld â Llandudno i fwynhau'r Profiad Siocled? Mae'r atyniad yn Llandudno wedi'i rannu i naw rhan - ac mae pob un yn dadlennu gwahanol rannau o hanes siocled. Mae'r rhan Hel Atgofion hefyd yn cynnwys cannoedd o bapurau, tiniau a bocsys siocled o'r ganrif ddiwethaf. Ewch i'r wefan i weld yr amseroedd agor: [llandudnochocolateexperience.co.uk](http://llandudnochocolateexperience.co.uk)



# AROS, BWYTA, YFED, SIOPA

## YMGARTREFWCH AC YMLACIWCH

Os ydych yn adnabod Llandudno a Chonwy, byddwch yn gwybod nad oes prinder o lefydd gwych i aros - yn wir, y dewis mwyaf yng Nghymru. Beth am ymlacio yng nghyfaredd un o'n gwstai moethus, un o'r tai gwesty cysurus, neu beth am wneud fel y mynnwch mewn llety hunanarlwyo? Yr un yw'r stori yn fewndirol ym Metws-y-Coed lle gallwch fwynhau seibiant iachus mewn spa, aros mewn gwesty gwledig neu ymlacio mewn cuddfan hunan arlwyo moethus. Ewch i [dewchigonwy.org.uk](http://dewchigonwy.org.uk) i ddod o hyd i rywle i aros.



## BWYTA ALLAN

Bwydlenni at ddant pawb bwyd cain soffistigedig a bwyd gwledig maethlon, prydau bistro ffasiynol a sgod a sgod o'r safon flaenaf. Byddwch yn trefnu beth i'w gael nesaf...hyd yn oed cyn i chi archebu!

Nid yw'n syndod gyda chynnyrch mor ddeniadol ar garreg eich drws? Mae'r dewis yn eang: cregyn gleision Conwy, cig eidion gwartheg duon Dyffryn Conwy, cig oen o'r mynydd a chawsiau fferm.

O ran diodydd, mae yma sawl bragdy bach lleol, cynhyrchwyr jin a hyd yn oed gwinllan sy'n cynnig gwinoedd gwyn cynnil, gwinoedd coch o gryfder canolig, gwinoedd gwridog ffrwythus a gwin pefriog hawdd ei yfed.


## TREATCARD

Blas gaeaf Cymru yn Llandudno - rhowch gynnig ar rai o brofiadau bwyta gorau'r Tachwedd a Rhagfyr hwn a mwynhewch arbedion gwych gyda'ch cerdyn treatcard am ddim. Casglwch 6 sticer gan fwytai sy'n cymryd rhan am siawns i ennill 4 tocyn i Ddawns Cymdeithas Lletygarwch Llandudno yn 2020. Gallwch weld yr holl fwytai a'r cynigion yn [treatcard.co.uk](http://treatcard.co.uk)



## SIOPA NADOLIG

Anghofiwch am Amazon. Mae yna ryw hud arbennig yn gysylltiedig â siopa Nadolig - yn enwedig os dewch chi draw atom ni. Mae Ffair Nadolig Llandudno'n enwog o hwyliog, ac am fwy o syniadau gwych am anrhegion, ewch i siopau arbenigol Betws-y-Coed. Ym Melin Wlân Trefriw gyfagos, fe allwch chi bori drwy gynhyrchion sydd wedi'u gwneud ar y safle. Crwydrwch ar hyd strydoedd canoloesol Conwy i chwilio am yr anrheg perffaith. Ac mae'r siopau mwyaf a gorau yng Ngogledd Cymru i'w gweld yn Llandudno.



## CINEWORLD

**Cyf Map: B4**

I'r rheiny ohonoch sy'n hoff o ffilmiau, mae sinema Cineworld yng Nghyffordd Llandudno, sy'n berffaith ar gyfer noson allan neu ffilm i'r teulu. [cineworld.co.uk](http://cineworld.co.uk)

## THEATR COLWYN

**01492 556677 Cyf Map: B5**

Gallwch hefyd wyllo ffilm yn Theatr Colwyn ym Mae Colwyn. Dyma'r theatr a sinema hynaf sy'n gweithio yng Nghymru - ac mae'n dal i ffynnu, wedi'i moderneiddio bellach i gynnig profiad adloniadol yr 21ain Ganrif. Mae'r rhaglen o adloniant byw yn cynnwys cerddoriaeth, dramâu llwyfan, dawns a nosweithiau comedi stand-yp. Peidiwch ag anghofio archebu eich tocynnau ar gyfer Aladdin, a gynhelir rhwng 21 Rhagfyr a 4 Ionawr 2020. [theatrcolwyn.co.uk](http://theatrcolwyn.co.uk)

## AR LWYFAN A SGRIN

### VENUE CYMRU

**01492 872000 Cyf Map: A3**

Mae yna raglen lawn dop yn Venue Cymru, canolbwynt adloniant glan y môr Llandudno. Pop, comedi, opera, drama, dawns a sioeau cerdd poblogaidd yn syth o'r West End...mae'r cyfan yno. Dewch i hwyl yr ŵyl gyda chynhyrchiad panto Nadoligaidd Sleeping Beauty. [venuecymru.co.uk](http://venuecymru.co.uk)



# Gweyliau DIGWYDDIADAU A SEIBIANT DROS Y GAEAF

Gydag ond **naw**

**penwythnos tan y Nadolig...**

beth am archebu seibiant dros y gaeaf yn un o'n digwyddiadau gwych sy'n diweddu gyda Golau Gaeaf anhygoel ar 14 Rhagfyr.

I drefnu eich arhosiad, ewch i [dewchigonwy.org.uk](http://dewchigonwy.org.uk) neu ffoniwch Ganolfan Groeso Llandudno ar 01492 577 577.

## GWENER 25 – SUL 27 HYDREF

**25-26 HYD**

Sinema Awyr Agored  
Calan Gaeaf  
Parc Antur Eryri, Dolgarrog  
[adventureparcsnowdonia.com](http://adventureparcsnowdonia.com)

**25-27 HYD**

Gwledd Conwy  
[gwleddconwyfeast.com](http://gwleddconwyfeast.com)

**25-31 HYD**

Calan Gaeaf Ffear Fforest  
Zip World Fforest,  
Betws-y-Coed  
[zipworld.co.uk](http://zipworld.co.uk)

**26 HYD**

Ras 10k Calan Gaeaf Porth  
Eirias a Ras 1k i blant  
Bae Colwyn  
[bespokefitnessandevents.co.uk](http://bespokefitnessandevents.co.uk)

**26 HYD – 3 TACH**

Teithiau Arswydus Calan Gaeaf  
Castell Gwrych, Abergele  
[gwrychcastle.co.uk](http://gwrychcastle.co.uk)



## GWENER 1 – SUL 3 TACHWEDD



# 29 HYD-2 TACH

## OPERA CENEDLAETHOL CYMRU

VENUE CYMRU, LLANDUDNO [VENUECYMRU.CO.UK](http://VENUECYMRU.CO.UK)

**30 HYD**

Sioe Dân Gwyllt  
Llandudno (Os bydd  
tywydd gwael 31 Hydref)

**31 HYD**

Digwyddiad Calan  
Gaeaf, Castell Gwrych,  
Abergele  
[gwrychcastle.co.uk](http://gwrychcastle.co.uk)

**31 HYD**

Teithiau Arswydus,  
Castell Conwy  
[cadw.llyw.cymru](http://cadw.llyw.cymru)

**2-3 TACH**

Gŵyl Gerdded Eryri  
Betws-y-Coed  
[breeseadventures.co.uk](http://breeseadventures.co.uk)

**2 TACH**

Ffair Grefftau Cyfoes Gogledd Cymru MOSTYN,  
Llandudno [mostyn.org](http://mostyn.org)

## GWENER 8 – SUL 10 TACHWEDD

# 8-10 TACHWEDD GŴYL GORAWL GOGLEDD CYMRU

VENUE CYMRU, LLANDUDNO

9 TACH Her Llwybr Betws-y-Coed [trailbetws.com](http://trailbetws.com)

9 TACHWEDD – 1 MAWRTH 2020 Arddangosiadau gan Chiara Camoni, Nobuko Tsuchiya, Anj Smith ym MOSTYN, Llandudno (Ar agor dydd Mawrth i ddydd Sul) [mostyn.org](http://mostyn.org)

## GWENER 15 – SUL 17 TACHWEDD

### 14-17 TACH

Ffair Nadolig Llandudno  
Dros 150 o'r stondinau  
bwyd, diod a chreffft gorau.  
[llandudnochristmasfayre.co.uk](http://llandudnochristmasfayre.co.uk)

### 16 TACH

Golau Gaeaf : Pennod I,  
Llandudno. Noson o  
berfformio ymdeithiol a gwyllt.  
[facebook.com/  
digwyddiadauconwy](http://facebook.com/digwyddiadauconwy)



### 17 TACH

Hanner Marathon Conwy  
[runwales.com](http://runwales.com)

## GWENER 22 – SUL 24 TACHWEDD

### 23-24 TACH

Tonau, Mwd a Mynyddoedd,  
Parc Antur Eryri, Dolgarrog  
[adventureparcsnowdonia.com](http://adventureparcsnowdonia.com)

### 23 TACH - 21 RHAG

Y Sioe Aeaf yn Yr Academi  
Frehinol Gymreig Conwy  
(ar agor dydd Mawrth i ddydd  
Sadwrn) [rcaconwy.org](http://rcaconwy.org)

## GWENER 29 TACHWEDD – SUL 1 RHAGFYR



# 29 TACH

THEATR COLWYN  
BAE COLWYN  
[THEATRCOLWYN.CO.UK](http://THEATRCOLWYN.CO.UK)

## VIENNA FESTIVAL BALLET YN CYFLWYNO EIRA WEN

### 30 TACH AC 1 RHAG

Ffair Nadolig,  
Castell Gwrych, Abergele  
[gwrychcastle.co.uk](http://gwrychcastle.co.uk)

### 30 TACH AC 1 RHAG

Ffair Nadolig,  
Llyn Brenig, Cerrigydrudion  
[llyn-brenig.co.uk](http://llyn-brenig.co.uk)

COFIWCH: Cafodd y rhestr hon ei llunio yn Awst 2019, felly mae'n bosibl y bydd y manylion wedi newid. Gwiriwch y dyddiadau os ydych yn bwriadu mynychu digwyddiad neu archebu llety.

## GWENER 6 – SUL 8 RHAGFYR

7 RHAG Llandudno Ras Siôn Corn  
[bespokefitnessandevents.co.uk](http://bespokefitnessandevents.co.uk)

7 RHAG Gorymdaith Nadolig Llandudno  
[llandudno.gov.uk](http://llandudno.gov.uk)

7-8 RHAG Marchnad Nadolig,  
Parc Antur Eryri, Dolgarrog  
[adventureparcsnowdonia.com](http://adventureparcsnowdonia.com)



# Sleeping Beauty

THE PANTOIME OF YOUR DREAMS

## 7-29 RHAG

PANTOMEIM **SLEEPING BEAUTY**  
VENUE CYMRU, LLANDUDNO [VENUECYMRU.CO.UK](http://VENUECYMRU.CO.UK)

## GWENER 13 – SUL 15 RHAGFYR

14 RHAG Golau Gaeaf : Pennod II,  
Noson o wrando ar straeon anhygoel yn  
cael eu hadrodd drwy daflunio goleuadau  
[facebook.com/digwyddiadauconwy](http://facebook.com/digwyddiadauconwy)

14 RHAG Gŵyl Gaeaf Conwy, Conwy  
[conwytownevents.co.uk](http://conwytownevents.co.uk)

# GOLAU GAEAF WINTER LIGHT

DEFFRO CHWEDLAU A CHREADURIAID  
MYTHS & MONSTERS AWAKEN

DIGWYDDIAD CYFAREDDOL I'R TEULU CYFAN  
DAW GOLEUNI AR STRAEON SYDD WEDI BOD YN  
LLECHU YN Y TYWYLLWCH ERS CANRIFOEDD

PENNOD I - 7PM 16 TACHWEDD  
Stryd Mostyn, Llandudno

PENNOD II - 7PM 14 RHAGFYR  
Gerddi'r North Western, Llandudno



[WWW.CONWY.GOV.UK/DIGWYDDIADAU](http://WWW.CONWY.GOV.UK/DIGWYDDIADAU)





## TEITHIAU MARINE DRIVE, LLANDUDNO

**01492 879133 Cyf Map: A3**  
 Ewch ar hen fws moethus am daith un awr ar hyd Marine Drive a mwynhau golygfeydd syfrdanol o Ynys Môn, Eryri ac allan dros Fôr Iwerddon. Bydd y daith yn gadael bob dydd o fynedfa'r pier am 11am, 1pm a 3pm. [alpine-travel.co.uk](http://alpine-travel.co.uk)



# CONWY & LLANDUDNO

Canolfannau Croeso  
 Tourist Information Centres

DANGOSWCH Y DALEB HON I HAWLIO'R GOSTYNGIAD.

## GOSTYNGIAD O 10%

AR FWYD, DIOD, ANRHEGION A HAMPERI YNG NGHANOLFANNAU CROESO LLANDUDNO A CHONWY.

### CANOLFAN GROESO LLANDUDNO

Uned 26, Canolfan Siopa  
 Victoria, Stryd Mostyn,  
 Llandudno LL30 2NG  
 01492 577577

Ar agor drwy'r flwyddyn \*Yn ddilys o 1 Tachwedd 2019 tan 31 Mawrth 2020.  
 Gostyngiad ar gynnyrch yn y siop yn unig. Nid yw'n cynnwys gwasanaethau.

### CANOLFAN GROESO CONWY

Adeilad Muriau,  
 Stryd Rose Hill,  
 Conwy LL32 8LD  
 01492 577566

**Cyhoeddwyd gan:**  
 Busnes a Twristiaeth,  
 Cyngor Bwrdeistref  
 Sirol Conwy,  
[tourism@conwy.gov.uk](mailto:tourism@conwy.gov.uk)



Er bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y cyhoeddiad hwn, ni all y Cyngor dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw wallau, camgymeriadau neu hepgoriadau nac am unrhyw fater sydd mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig â neu'n codi o gyhoeddi'r wybodaeth yn y llyfr yn hwn.

**Dyluniwyd gan:** View Creative [viewcreative.co.uk](http://viewcreative.co.uk)  
**Ffotograffiaeth:** Parc Antur Eryri, Sŵ Fynydd Gymreig Bae Colwyn, © Hawlfraint y Goron (2019) Cadw, Go Below Underground Adventures Ltd, MOSTYN, © Ymddiriedolaeth Genedlaethol/ Christopher Gallagher, Martin Lyons, PM Photography, © Dan Struthers Photography, Sapphire Brasserie, © Visit Britain, © Hawlfraint y Goron (2019) Croeso Cymru, Matt Wilcox.



### CYRRAEDD YMA:

#### TRÊN

I'r cyrchfannau arfordirol:  
[nationalrail.co.uk](http://nationalrail.co.uk)

I'r ardaloedd mewndirol  
 ar Reilffordd hyfyrd  
 Dyffryn Conwy:  
[conwyvalleyrailway.co.uk](http://conwyvalleyrailway.co.uk)

#### BWS

[nationalexpress.com](http://nationalexpress.com)

#### TEITHIO O

**AMGYLCH:**  
[traveline.cymru](http://traveline.cymru)

### ALLWEDD/KEY

—●— Rheilffordd gyda gorsaf  
 Railway with station

Ffin Parc Cenedlaethol Eryri  
 Snowdonia National  
 Park Boundary

Parc Coedwig Gwydyr  
 Gwydyr Forest Park

Canolfan Groeso  
 Tourist Information Centre

Pwynt Gwybodaeth  
 i Ymwelwyr  
 Tourist Information Point

Copa Mynydd  
 Mountain Peak

### GETTING HERE

#### TRAIN

To the coastal destinations:  
[nationalrail.co.uk](http://nationalrail.co.uk)

Inland on the scenic Conwy  
 Valley Line:  
[conwyvalleyrailway.co.uk](http://conwyvalleyrailway.co.uk)

#### COACH

[nationalexpress.com](http://nationalexpress.com)

#### GETTING AROUND

[traveline.cymru](http://traveline.cymru)